# Paul Davies AM/AC
Aelod y Ceidwadwyr Cymreig dros Breseli Penfro
Conservative Member for Preseli Pembrokeshire


Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

10 Ionawr 2019

Annwyl Gadeiryddion,

**Bil Awtistiaeth (Cymru)**
Hoffwn ddiolch i chi ac i aelodau'ch pwyllgorau am eich gwaith manwl yn trafod y Bil Awtistiaeth (Cymru) a'ch adroddiadau a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2018. Ar ôl eu hystyried yn ofalus, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ymateb i'r argymhellion a wnaed yn y ddau adroddiad cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil ar 16 Ionawr.

*Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon*
**Argymhelliad 8**: Rydym yn argymell, os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen i Gyfnod 2, y dylid cyflwyno gwelliant i sicrhau nad Adolygiad Barnwrol yw'r unig lwybr sydd ar gael i unigolion weithredu eu hawliau.

Rwy'n derbyn yr egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad hwn, ond ar ôl ystyried y materion perthnasol yn ofalus, yn anffodus iawn ni allaf ei weithredu ar hyn o bryd.

Diben cyffredinol y Bil hwn yw sicrhau y caiff anghenion plant ac oedolion ag anhwylder y sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru eu diwallu, a diogelu a hyrwyddo'u hawliau. Byddai'n peri pryder mawr imi felly, os na fydd y rheini y mae'r Bil hwn yn

ceisio'u helpu yn gallu cael rhwymedïau priodol os na chaiff eu hanghenion eu diwallu. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn rhoi dyletswyddau clir ar Weinidogion Cymru a chyrff perthnasol sy'n galluogi'r rheini sydd eisiau cael iawn i wneud hynny drwy adolygiad barnwrol; fodd bynnag, rwy'n cydnabod pryderon nad yw bob amser yn hawdd mynd drwy'r broses hon.

Yn y dystiolaeth, fe wnes i a fy swyddogion sylwadau ynghylch y gwahaniaeth rhwng camau gorfodi ar ran y Weithrediaeth, a rhwymedïau uniongyrchol sydd ar gael i'r dinesydd. Er bod modd mynd i'r afael â'r cyntaf o'r rhain mewn sawl ffordd (er enghraifft, pwerau cyfarwyddyd ac ymyrraeth), mae'r opsiynau i fynd i'r afael â'r ail o'r rhain mewn deddfwriaeth o'r fath yn llawer mwy cyfyngedig. Ni fyddai rhwymedïau ariannol yn briodol yn yr achos hwn, ac ni fyddwn am ddeddfu ar gyfer rhwymedïau y mae gan y dinesydd yr hawl i gael mynediad atynt eisoes (fel cwynion drwy weithdrefnau presennol y GIG a'r awdurdodau lleol, ac atgyfeirio at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus). Fodd bynnag, fel y Pwyllgor, rwy'n cefnogi'r nod o sicrhau bod gan ddinasyddion fwy o hawliau i rwymedïau addas lle bo'n ymarferol ac, i'r perwyl hwn, rwyf wedi rhoi cryn ystyriaeth wrth ddatblygu'r Bil ynghylch sut y gellid ei ddiwygio er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Ond yn anffodus am y rhesymau rwyf wedi'u hamlinellu, nid wyf wedi gallu dod o hyd i ddatrysiad ymarferol, felly ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, rwy'n parhau i lwyr gefnogi rhesymau'r Pwyllgor dros wneud yr argymhelliad hwn, a gallaf sicrhau'r Aelodau, os cytunir ar yr egwyddorion cyffredinol, y byddwn yn hapus i weithio gyda'r Aelodau, neu ystyried unrhyw welliannau a gyflwynir yn ystod y cyfnodau diwygio, gyda'r nod o gryfhau'r Bil yn hyn o beth.

Mae'r argymhellion sy'n weddill a wneir gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ymwneud â Llywodraeth Cymru. Rwy'n rhannu'r pryderon y mae'r Pwyllgor wedi'u mynegi yn ei adroddiad ac yn cytuno'n llwyr â'r Pwyllgor bod angen gwelliannau brys i wasanaethau cymorth anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

### *Y Pwyllgor Cyllid*

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camgyfrifiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yn argymell y dylid mynd i'r afael â hyn, pe bai'r Bil yn symud ymlaen i gyfnod 2.

Derbyn.

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA - Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Tel/Ffôn: 0300 200 7216
paul.davies@cynulliad.cymru / www.pauldaviesam.co.uk

Ysgrifennais at y Pwyllgor Cyllid ar 31 Hydref 2018 yn amlinellu camgyfrifiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ran yr arbedion y gellid eu gwneud pe bai'r Bil yn arwain at ostyngiad o 1 y cant mewn gwariant anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Os cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil, gallaf gadarnhau y bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gaiff ei lunio ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2, yn adlewyrchu'r ffigur diweddaraf.

Rwy'n rhannu'r rhwystredigaeth y mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei fynegi ynghylch diffyg cydweithrediad gan Lywodraeth Cymru â mi wrth i mi ofyn am ddata cywir ynghylch y gwariant cyfredol ar wasanaethau anhwylderau'r sbectrwm awtistig ledled Cymru. Byddai rhywun yn disgwyl bod Llywodraeth Cymru yn casglu data o'r fath er mwyn sicrhau bod ei gwasanaethau ei hun ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn cael eu cynllunio a'u darparu'n briodol, a gallaf ddweud yn ddigamsyniol y byddai hyn wedi fy ngalluogi i roi mwy fyth o fanylion ynghylch costau'r Bil.  Rwy'n llwyr gefnogi argymhelliad 1 y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu gwybodaeth i helpu Aelodau i lunio costau cywir ar gyfer memoranda esboniadol a gyflwynir gyda Biliau sy'n cael eu cyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 26.91.

*Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol*

**Argymhelliad 1**: Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol bod y strategaeth awtistiaeth o dan adran 1 o'r Bil yn dod o dan y weithdrefn negyddol.

Derbyn.
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac, os bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2, rwy'n ymrwymo i gyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn er mwyn sicrhau bod gwaith craffu gan y Cynulliad yn digwydd ar y lefel hon yn achos y strategaeth hon.

**Argymhelliad 2**: Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil drafod gyda'r Ysgrifennydd Cabinet amserlen addas ar gyfer cwblhau'r strategaeth awtistiaeth a chyflwyno gwelliant i adran 1(4) o'r Bil i gynyddu'r cyfnod o 6 mis yn unol â'r trafodaethau hynny.

Derbyn.
Rwy'n ymwybodol bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynegi pryder ynghylch yr amserlen y mae'r Bil yn ei phennu ar gyfer cwblhau'r strategaeth awtistiaeth. Rwy'n fodlon ailystyried yr amserlen ac yn

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA - Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Tel/Ffôn: 0300 200 7216
paul.davies@cynulliad.cymru / www.pauldaviesam.co.uk

ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar amserlen addas a chyflwyno gwelliant i'r Bil i'r perwyl hwnnw.

**Argymhelliad 3**: Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ailystyried a yw'r rhwymedïau sydd ar gael i ddinasyddion o dan y Bil yn briodol, ac os oes angen hynny, cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu ffordd fwy effeithiol o orfodi darpariaethau'r Bil.

Derbyn.
Mae hyn yn debyg i argymhelliad 8 gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Fel y nodir yn fy ymateb uchod i'r argymhelliad hwnnw, rwy'n cefnogi'r syniad o roi mwy o hawliau i ddinasyddion o dan y Bil lle bo modd, ac rwyf wedi ystyried yr holl opsiynau ymarferol yn ofalus er mwyn cyflawni'r nod o gryfhau'r rhwymedïau sydd ar gael iddynt. Yn anffodus, fel yr wyf wedi esbonio, nid wyf wedi llwyddo i ddod o hyd i ffordd ystyrlon o ddiwygio'r Bil yn hyn o beth.

Fodd bynnag, rwy'n pwysleisio fy ymrwymiad i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer hawliau adferol lle bo'n ymarferol, ac fel y dywedais uchod, rwy'n hapus i weithio gyda'r Aelodau ac arbenigwyr eraill, neu ystyried unrhyw welliannau a gyflwynir yn ystod y cyfnodau diwygio, gyda'r nod o gryfhau'r rhwymedïau sydd ar gael o dan y Bil.

**Argymhelliad 4**: Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliant i'r Bil yn nodi'r data y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol ei gasglu, gan ychwanegu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau, yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol, gategorïau eraill o ddata (gan ddyblygu'r ddarpariaeth yn adran 6(6)(j) i bob pwrpas).

Derbyn.
Mae Adran 6 y Bil yn nodi'r data penodol sydd i'w gasglu gan gyrff y GIG i gynorthwyo gyda diagnosis a darparu gwasanaethau i bobl ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Bernir bod y categorïau penodol o ddata yn cyrraedd yr isafswm gofynnol ar gyfer bodloni swyddogaethau diagnosis, a chynllunio a datblygu gwasanaethau. Cafodd y ddarpariaeth hon ei llywio'n helaeth drwy ymgynghori â Dr Dawn Wimpory, sy'n rheoli treial ar gasglu data anhwylderau'r sbectrwm awtistig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac sy'n ymarferydd clinigol ei hun. Ategwyd hyn ymhellach gan yr ymgynghoriad cyhoeddus am yr agwedd hon ar y Bil.

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA - Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Tel/Ffôn: 0300 200 7216
paul.davies@cynulliad.cymru / www.pauldaviesam.co.uk

Rwy'n cydnabod, er bod awdurdodau lleol wedi'u pennu fel un o'r cyrff perthnasol y byddai rhannau o adran 6 yn gymwys iddynt, nad yw hyn ond yn ymwneud â'u rhwymedigaethau cyffredinol i gynorthwyo Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswyddau casglu data eu hunain o dan adran 6(1). Dyletswyddau Gweinidogion Cymru yw caffael, llunio a chadw data dibynadwy diweddar i gefnogi eu swyddogaethau o dan y Bil – ac mae rhyddid iddynt benderfynu pa ddata y mae'n rhaid iddynt ei gasglu i gyflawni hyn. Er bod y rhwymedigaethau data penodol sydd ar gyrff y GIG yn adran 6(6) o'r Bil wedi'u cynnwys i fynd i'r afael ag angen penodol a phwysig, ni ddaeth unrhyw dystiolaeth i law yn nodi bwlch mewn perthynas â chasglu data mewn awdurdodau lleol yn gyffredinol. Ymhellach, mae tystiolaeth y Gweinidog yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru bwerau helaeth eisoes i gasglu data, ac nad oes angen pwerau na rhwymedigaethau pellach arni yn hyn o beth.

Efallai y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb nodi y bydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sydd ar y gweill ac y cyfeiriais ati yn y Memorandwm Esboniadol, yn golygu ei bod yn haws i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol gofnodi a rhannu gwybodaeth bwysig sy'n cwmpasu ystod o weithgareddau fel nyrsio cymunedol, ymweliadau iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, anableddau dysgu, camddefnyddio sylweddau, anghenion gofal cymhleth neu therapi gofal cymdeithasol.

Gan ystyried hyn i gyd, ryw'n fodlon gofyn am gyngor arbenigol am y mathau o ddata y gallai fod yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol eu casglu i helpu o safbwynt diagnosis a darparu gwasanaethau, ac, os yw'n briodol, cyflwyno gwelliannau yn unol â hynny.

**Argymhelliad 5**: Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliant i adran 9(1) o'r Bil i ddileu paragraff (b) o'r diffiniad o anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

Derbyn.
Prif ffocws y Bil yw gwella gwasanaethau anhwylderau'r sbectrwm awtistig yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae adran 9(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi anhwylderau niwroddatblygiadol eraill drwy reoliadau. Mae hyn yn golygu, pe bai Gweinidogion Cymru yn y dyfodol yn credu y dylid cymhwyso darpariaethau'r Bil hwn i bobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill, y byddai ganddynt y pŵer i wneud hynny.

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA - Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Tel/Ffôn: 0300 200 7216
paul.davies@cynulliad.cymru / www.pauldaviesam.co.uk

Cafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys yn y Bil gan fod adborth o'r ymarferion ymgynghori y cynhaliais yn cefnogi'n gryf y defnydd o ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o anhwylderau'r sbectrwm awtistig a chynnwys pŵer i bennu anhwylderau niwroddatblygiadol eraill. Y rheswm dros gynnwys y ddarpariaeth hon oedd sicrhau bod modd ymestyn manteision deddfu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig i'r rheini â chyflyrau eraill. Fodd bynnag, diben y Bil yn fwy na dim yw gwella gwasanaethau anhwylderau'r sbectrwm awtistig yng Nghymru, a dyma yw ei brif ffocws.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus y rhesymeg y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor ac rwy'n dod i'r casgliad fy mod yn fodlon cyflwyno'r gwelliant angenrheidiol i roi'r argymhelliad hwn ar waith.

Ni waeth a fydd darpariaeth i ymestyn cwmpas y Bil hwn i gynnwys cyflyrau eraill, rwy'n credu y bydd pasio a rhoi fy Mil ar waith o fudd i'r rheini y mae ganddynt ystod ehangach o gyflyrau.

Bydd y Bil yn gwella sgiliau staff sy'n gweithio gyda phobl ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig, a phobl â chyflyrau eraill hefyd.  Mae'r broses ddiagnostig ar gyfer awtistiaeth yn cynnwys ystyried cyflyrau cysylltiedig neu sy'n cyd-ddigwydd (e.e. anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd), sy'n golygu bod angen sgiliau o ran adnabod a gwahaniaethu rhwng y cyflyrau eraill hyn.  Bydd y ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer diagnosis cynharach yn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir yn gynt, p'un a oes ganddynt awtistiaeth neu gyflwr arall.  Yn ogystal, gall gwella safonau gwasanaeth a chasglu data, ac annog ymchwil ac arloesedd, helpu i hyrwyddo arfer gorau ar draws gwasanaethau a sicrhau bod lefelau diagnosis priodol yn cael eu mesur yn erbyn data perthnasol am nifer yr achosion.

**Argymhelliad 6**: Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliant i'r Bil i alluogi'r gofynion ynghylch casglu data ar gyfer cyrff perthnasol newydd a ragnodir o dan adran 9(1) i gael eu nodi mewn rheoliadau sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Derbyn.
Mae hyn yn cyd-fynd â fy ymateb i argymhelliad 4 y Pwyllgor. Rwy'n derbyn, os bydd angen ymestyn y gofynion casglu data i gynnwys corff neu sefydliad

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA - Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Tel/Ffôn: 0300 200 7216
paul.davies@cynulliad.cymru / www.pauldaviesam.co.uk

ychwanegol, y dylai'r rheoliadau bennu'r gofynion casglu data sydd ar y corff hwnnw lle mae tystiolaeth arbenigol yn nodi bod hyn yn angenrheidiol. Os bydd cytundeb ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil, byddaf yn ymrwymo i gyflwyno gwelliant i'r Bil i'r perwyl hwnnw.

Rwy'n ddiolchgar i bob un o'r pwyllgorau am roi o'ch amser i drafod y Bil Awtistiaeth (Cymru) ac am eich adroddiadau manwl. Nod y Bil hwn o'r cychwyn yw gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig a'u teuluoedd ledled Cymru, ac rwy'n credu'n gryf mai'r mesurau yn y Bil hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen.

Yn gywir,

Paul Davies AC
Preseli Penfro
Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA - Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Tel/Ffôn: 0300 200 7216
paul.davies@cynulliad.cymru / www.pauldaviesam.co.uk